



GWNEUD A GWERTHUSO PROFIAD

GWAITH ➤

Cynllun y sesiwn



**START
SOMETHING**

PARATOI AR GYFER GWATH

CIPOLWGW >

Mae'r sesiwn yma'n helpu'r dysgwyr i nodi eu profiadau ar eu lleoliad gwaith, ac i bwysu a mesur yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu ar ôl y profiad. Cyn hyn, dylai'r dysgwyr fod wedi cwblhau'r sesiwn 'Gwneud cais a pharatoi ar gyfer profiad gwaith'.



CYFLEOEDD LLYTHRENNEDD, IAITH

A RHIFEDD

- ✓ Portffolio ysgrifenedig am brofiad gwaith
- ✓ Cyflwyno eu profiadau i grŵp
- ✓ Ymateb i brofiadau pobl eraill



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cael blas ar fyd gwaith – Deilliannau Dysgu: Cyflawni lleoliad profiad gwaith yn llwyddiannus ac Adolygu'ch lleoliad profiad gwaith eich hun

DEILLIANNAU DYSGU >

- ✓ Pwysu a mesur y profiad gwaith
- ✓ Nodi'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y profiad gwaith
- ✓ Deall sut bydd y profiad yma o help i chi yn y dyfodol

GWEITHGAREDDAU >

GWEITHGAREDDAU	AMSER	TUDALEN
Cyflawni profiad gwaith yn llwyddiannus	-	03
Gwerthuso a phwysu a mesur	30 munud	04



Prince's Trust

START
SOMETHING

CYFLAWNI PROFIAD GWAITH YN LLWYDDIANNUS

Mae'r gweithgaredd yma'n rhoi'r arweiniad angenrheidiol i helpu'r dysgwyr yn ystod eu profiad gwaith, drwy eu helpu i bwysu a mesur yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu.



TAFLEN WAITH

- ✓ Portffolio profiad gwaith



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Llenwi log dyddiol am eich lleoliad profiad gwaith
- ✓ Cael adborth ar eich lleoliad profiad gwaith

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Dylech helpu pob person ifanc gyda'u lleoliadau profiad gwaith, a'u helpu i gwblhau eu portffolios profiad gwaith i safon uchel (cofiwch eu hatgoffa eu bod yn gweithio'n broffesiynol yn awr!)

Os bydd y dysgwyr yn dewis gwneud eu profiad gwaith ar-lein, mae'n bwysig pwysleisio y bydd gweithio o bell yn eu helpu i feithrin sgiliau cydweithio a chyfathrebu digidol pwysig, ac y bydd yn eu paratoi ar gyfer cyfweiliadau ar-lein a threfniadau gweithio o bell yn y dyfodol. Fe allai'r dysgwyr ddigalonni os nad oedden nhw wedi gallu cael y profiad roedden nhw wedi gobeithio ei gael yn eu lleoliad gwaith, ond byddan nhw'n dal wedi dysgu sgiliau gwerthfawr.

2. Fel rhan o'u gwaith portffolio, gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r daflen waith 'Cofnodi cynnydd dyddiol' gyda gwybodaeth am yr hyn maen nhw'n ei wneud bob dydd. Rhaid cynnwys y canlynol:
 - Pa dasgau maen nhw wedi'u cyflawni
 - Pa sgiliau maen nhw wedi'u dangos
 - Rhywbeth maen nhw wedi'i wneud yn dda y maen nhw'n falch ohono
 - Rhywbeth y byddan nhw'n ceisio ei wella fory
3. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i gyflogwyr a chynrychiolydd iechyd a diogelwch lenwi datganiad profiad gwaith, sydd i'w weld ar ddiwedd y ddogfen portffolio. Mae angen i'r datganiad yma ddangos cyfraniad y dysgwyr yn ystod eu cyfnod ar brofiad gwaith.



GWERTHUSO A PHWYSO A MESUR

Yn y gweithgaredd yma, bydd y dysgwyr yn meddwl am yr hyn maen nhw wedi'i gyflawni yn ystod eu profiad gwaith, ac yn gosod nodau newydd ar sail yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu.



AMSER

30 munud



TAFLEN WAITH

- ✓ Portffolio profiad gwaith
- ✓ Taflen waith Gwneud cais a pharatoi ar gyfer profiad gwaith



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Rhoi enghreifftiau o sut roeddech chi wedi cydweithio ag eraill
- ✓ Rhoi enghreifftiau o sut roeddech chi wedi cadw at reolau iechyd a diogelwch
- ✓ Beth roeddech chi wedi'i fwynhau am eich profiad gwaith
- ✓ Beth sy'n anodd / heriol i chi am eich profiad gwaith
- ✓ Sut bydd y profiad gwaith yma o help i chi yn y dyfodol
- ✓ Y sgiliau rydych chi wedi'u dysgu yn ystod eich profiad gwaith
- ✓ Egluro ffyrdd posibl o wella'r profiad gwaith

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Gofynnwch i'r dysgwyr edrych dros eu taflen waith 'Cofnodi cynnydd dyddiol' a cham 3 eu taflen waith 'Gwneud cais a pharatoi ar gyfer profiad gwaith', lle'r oedden nhw wedi ysgrifennu rhywfaint o nodau a disgwyliadau ar gyfer y lleoliad profiad gwaith. Eglurwch fod angen iddyn nhw'n awr ysgrifennu sut aeth y profiad gwaith yn eu barn nhw, a oedd wedi bodloni eu disgwyliadau, ac i ba raddau maen nhw'n teimlo eu bod wedi cyflawni'r nodau roedden nhw wedi'u gosod i'w hunain.
2. Anogwch y grŵp i siarad am eu profiad ac a oedden nhw wedi cyflawni popeth yr oedden nhw wedi gobeithio ei gyflawni. Oedden nhw wedi dysgu unrhyw beth y byddan nhw'n ei ddefnyddio ar gyfer profiadau tebyg yn y dyfodol? Gosodwch nodau CAMPUS newydd ar sail yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu, a'r sgiliau maen nhw wedi'u datblygu yn sgil eu profiad gwaith.
3. Os oes amser, ac os ydy'r grŵp yn teimlo'n gyfforddus i wneud hyn, bydden nhw'n gallu rhoi cyflwyniad i weddill y grŵp am eu lleoliad profiad gwaith a thrafod rhywfaint o'r cwestiynau gwerthuso – er enghraifft, beth roedden nhw wedi ei fwynhau, beth oedd yn heriol, beth roedden nhw wedi'i ddysgu, beth fydden nhw'n ei wella neu'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf, a sut bydd eu profiad gwaith o help iddyn nhw yn y dyfodol. Os ydy'r dysgwyr yn cael eu ffilmio'n gwneud eu cyflwyniadau, gallai hyn gyfrif tuag at eu hunedau Profiad Gwaith a Sgiliau Cyflwyno.
4. I wneud yn siŵr eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y sgiliau maen nhw wedi'u dysgu ar eu lleoliadau profiad gwaith, dylech eu cyfeirio at yr uned 'Cynllunio Gyrfa', lle byddan nhw'n gallu gweithio ar eu CVs, eu datganiadau personol a'u ceisiadau posibl am swyddi drwy gynnwys yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu ar eu lleoliadau gwaith.

Os oes gennych chi amser, ac os ydych chi wedi edrych ar stori Luke ar ddiwedd y sesiwn 'Gwneud cais a pharatoi ar gyfer profiad gwaith', gallwch hefyd ofyn i'r dysgwyr feddwl am eu stori eu hunain am eu lleoliad profiad gwaith. Gall y dysgwyr gyflwyno eu stori mewn sawl cyfrwng – ee, fel PowerPoint, poster, ffilm, erthygl ar flog.



Prince's Trust

START
SOMETHING